



DRAINAGE & WASTEWATER MANAGEMENT PLAN

Dŵr Cymru Welsh Water

Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff 2024

Crynodeb Gweithredol

Tachwedd 2023



IN PARTNERSHIP WITH



Crynodeb Gweithredol Cynllun Draenio a Dŵr Gwastraff

Dyma ein Cynllun Draenio a Dŵr Gwastraff (DWMP) cyntaf ar gyfer Cymru a'r rhannau cyfagos o Loegr yr ydym yn eu gwasanaethu. Mae'n adeiladu ar ein Gweledigaeth 2050, Cyfarwyddiadau gan Lywodraeth Cymru, ein Rheoleiddwyr, ein Rhanddeiliaid, a'n Cwsmeriaid.

Y Cyd-destun ar gyfer Cylch 1

O'r cychwyn cyntaf, ein bwriad ar gyfer ein DWMP cyntaf oedd datblygu Cynllun Rheoli sy'n nodi ein cyfeiriad strategol ar gyfer gwasanaethau dŵr gwastraff, yng nghyd-destun anghenion ein cwsmeriaid, a chreu'r fethodoleg a'r offer i gefnogi sut rydym yn gwella gweithrediad ein hasedau dŵr gwastraff a charthffosiaeth, gan sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn gynaliadwy. Yna gellir defnyddio'r fethodoleg hon a'r offer hyn ymhellach wrth ddatblygu Cylch 2, yn dilyn yr adborth a gafwyd ar y cylch anstatudol cyntaf hwn o'r DWMP. Aethom ati i ddatblygu dull Cymru ar y Cyd o fynd ati i greu perthnasoedd a datblygu rhaglenni gwaith cydweithredol. Ategwyd y dull hwn gan ddyhead Llywodraeth Cymru ar gyfer cynllun strategol cydweithredol ar gyfer systemau draenio a dŵr gwastraff yng Nghymru.

Wrth lunio ein cynllun, rydym wedi ystyried: -

- Egwyddorion Arweiniol Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau DWMP a gyhoeddwyd yn 2022 ynghyd â'u heglurhad pellach o'u gofynion fel y nodir yn eu llythyr dyddiedig 3 Awst 2023
- Egwyddorion Arweiniol Ofwat a gyhoeddwyd yn 2022
- Cynlluniau gweithredu'r Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd a'r adroddiad ategol gan Stantec
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Datganiad Llywodraeth Cymru "sicrhau manteision gwell ar gyfer natur, yr amgylchedd a chymunedau drwy Systemau Draenio Cynaliadwy"
- Fframwaith DWMP Water UK
- Adran 79 o Ran 5 o Ddeddf yr Amgylchedd 2021 sy'n gofyn am Gynlluniau Rheoli Draenio a Charthffosiaeth ar gyfer Cymru a Lloegr.

Amcanion ein Cynllun

Oherwydd daearyddiaeth Cymru, gyda channoedd o ddalgylchoedd arwahanol â phoblogaethau bach, roedd yn rhaid i ni fynd ati i ddatblygu'r cynllun mewn ffordd flaengar. Mae ein Cynllun yn cynnig golwg strategol ar effeithiau newid yn yr hinsawdd, twf, ac ymgripiad trefol ar ein system dŵr gwastraff a draenio, gan ddeillio asesiadau risg perfformiad carthffosydd yn enwedig o ran y risg o lifogydd a llygredd. Mae'r asesiad risg sy'n sail i'r model hefyd yn cyfrannu at flaenoriaethu gorlifoedd storm a adlewyrchir yn y Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol. Mae hefyd yn nodi sut rydym yn bwriadu ymgysylltu â rhanddeiliaid i adeiladu rhaglenni partneriaeth, sy'n hanfodol ar gyfer cynnydd yn y dyfodol, pan fydd cyfleoedd yn codi.

Mae ein DWMP yn symud ymlaen o dybiaethau safonol ym maes dylunio draenio am ymdreiddiad i asesiad dalgylch penodol yn seiliedig ar ddata gollyngiadau EDM ac yn defnyddio ffyrdd arloesol o gynhyrchu data cynllunio strategol i ddatblygu ein gwasanaethau dŵr gwastraff a draenio gan ddefnyddio dull cost-effeithiol y gellir ei ailadrodd yn hawdd. Mae'r cynllun yn ceisio ysgogi gwelliannau cynaliadwy i gwsmeriaid a'r amgylchedd, ac wrth wneud hynny, gyflawni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae hefyd yn rhoi darlun i ni o faint o fuddsoddiad sydd ei angen yn awr, ac yn y dyfodol, i gynnal a gwella perfformiad ein systemau dŵr gwastraff, er mai dim ond ar gyfer y cylch cyntaf hwn y mae hyn yn ddangosol o ystyried faint o amcangyfrif sydd ei angen yn

seiliedig ar ganlyniadau'r sampl dalgylchoedd â blaenoriaeth a ddadansoddwyd, sydd ynnddi'i hun yn cwmpasu ardal fach o'n daearyddiaeth yn unig, er ei bod yn cwmpasu rhan sylweddol o'n poblogaeth.

Wrth ddatblygu ein Cynllun, yn unol â chyfarwyddiadau gan Lywodraeth Cymru, rydym wedi ymgysylltu â'n cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill, fel bod eu barn yn cael ei hystyried. Roedd hyn yn cynnwys Rheoleiddwyr, Awdurdodau Lleol, ein Panel Cynghori Annibynnol ar yr Amgylchedd (IEAP) a'r Grŵp Herio Annibynnol (ICG), a'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr – i ofyn am farn pob un ohonynt ar yr hyn y maent yn ei ystyried yn flaenoriaethau a dewisiadau pwysig i'w hystyried yn y Cynllun.

Mae gan ein Cynllun ddau ganlyniad hirdymor allweddol, a ddatblygwyd o'n hymgyngoriad helaeth â rhanddeiliaid:

- Ni ddylai unrhyw gwsmeriaid brofi llifogydd o garthion y tu mewn i'w cartrefi oherwydd diffyg capasiti o ran y rhwydwaith carthffosydd.
- Dylai ein hafonydd a'n dyfroedd arfordirol ond derbyn llifau wedi'u trin o'r system garthffosiaeth i warchod eu bioamrywiaeth a'u hecoleg.

Wrth gyflawni'r rhain rydym wedi ceisio:

- Nodi atebion sydd fwyaf cynaliadwy ac sy'n rhoi'r gwerth gorau i gwsmeriaid, gan ystyried costau carbon cynlluniau, a materion amgylcheddol ehangach a nodwyd drwy Asesiadau Amgylcheddol Strategol a Rheoliadau Cynefinoedd
- Cyfrannu at gyflawni statws ecolegol 'Da' fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Fframwaith Dŵr y DU
- Gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau o bwysigrwydd rhyngwladol fel y'u diffinnir gan Reoliadau Cynefinoedd ac Adar y DU
- Cyflawni ein dyletswyddau statudol ar gyfer llifogydd trefol a hyrwyddo effeithlonrwydd dŵr, bioamrywiaeth a chynllunio i leihau carbon net.
- Cyflawni yn erbyn ein rhwymedigaeth genedlaethol i gefnogi'r gwaith o gynnal a chadw amddiffynfeydd llifogydd cymunedol yn barhaus.

Rydym yn cydnabod bod yn rhaid i'n DWMP gael ei gynllunio i sicrhau bod modd ei wireddu a'i ariannu, ac i daro'r cydbwysedd cywir o ran uchelgais a fforddiadwyedd. O ystyried bod y cylch cyntaf hwn yn dangos faint o fuddsoddiad sydd ei angen ac nad yw'n gynllun y gellir ei weithredu, bydd angen cymhwyso'r meini prawf hyn i allbynnau'r ail gylch, yn seiliedig ar fodelu dalgylch cyflawn ac integreiddio buddsoddiad gorlif storm wedi'i asesu ar sail niwed ecolegol. Er bod gennym ddaearyddiaeth fawr a nifer sylweddol o ddalgylchoedd dŵr gwastraff arwahanol, mae gennym sylfaen cwsmeriaid cymharol fach, sydd yn y pen draw yn talu am y gwasanaeth a gwelliannau drwy eu biliau dŵr.

Gorlifoedd Storm

Yng Nghymru, polisi'r Llywodraeth tuag at fuddsoddi i ddatrys gollyngiadau o orlifoedd storm yw blaenoriaethu yn seiliedig ar eu heffaith ar yr amgylchedd er mwyn cyflawni gofynion y Fframwaith Dŵr a'r Cyfarwyddbau Trin Dŵr Gwastraff Trefol, tra bod y buddsoddiad yn Lloegr yn canolbwyntio ar leihau amllder gollyngiadau.

Er mwyn cefnogi'r dull yng Nghymru, rydym wedi ymgysylltu â'r Tasglu Gwella Ansawdd Dŵr Afonydd (BRQTF), grŵp aml-randdeiliad a arweinir gan Lywodraeth Cymru. Sefydlwyd y grŵp hwn "i werthuso'r dull presennol o reoli a rheoleiddio gorlifoedd yng Nghymru, er mwyn nodi cynlluniau manwl i ysgogi newid a gwelliannau cyflym" ac i ddatblygu "Cynllun Gweithredu Gorlifoedd Storm" ar gyfer cwmnïau yng Nghymru er mwyn creu rhaglenni buddsoddi ar gyfer PR24, gan flaenoriaethu buddsoddiad yn seiliedig ar effaith amgylcheddol gorlifoedd storm yn y cyrff dŵr blaenoriaeth uchaf / mwyaf sensitif.

Gwneir hyn gan ddefnyddio'r Fframwaith Asesu Gorlifoedd Storm (SOAF), gan gynnwys holl elfennau asesu'r effaith ar ansawdd dŵr. O ganlyniad, mae'r targed ar gyfer cwmnïau yng Nghymru, sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, yn wahanol i Loegr, a'i nod yw dileu effaith ecolegol andwyol unrhyw orlifoedd storm erbyn 2040. Mae ein dull yn mynd ymlaen i ddangos lle nad oes angen gwneud gwaith, ac felly'n llunio atebion yn unol â'r wybodaeth dechnegol orau nad ydynt yn golygu costau uchel.¹

Sut y gwnaethom ddatblygu ein DWMP Cylch 1

Yn unol â Fframwaith Water UK ar gyfer datblygu ein DWMP, rydym wedi cynnal Asesiad Llinell Sylfaen o Risg a Bregusrwydd (BRAVA) ar gyfer ein holl ddalgylchoedd dŵr gwastraff yn ein hardal weithredu. Roedd hyn yn cynnwys yr Amcanion Cynllunio canlynol:

- Gallu ein system i ymdopi â llifoedd mewn tywydd sych ac eithafol,
- Effeithiau gollyngiadau storm ar ein hafonydd a dyfroedd arfordirol,
- Maint y llygredd sy'n debygol o ddigwydd o ddiangfeydd o'n system dŵr gwastraff,
- Y risg o lifogydd mewn stormydd difrifol,
- Effaith bosibl carthffosydd yn dymchwel ac yn cael eu blocio.

Drwy gadarnhau'r wybodaeth hon, bu modd i ni wedyn ddatblygu Cynllun Gweithredu ar gyfer pob dalgylch. Gwnaeth nodweddu problemau (cam nesaf y Fframwaith) ein galluogi i nodi'r dalgylchoedd â'r sgôr uchaf yn seiliedig ar gymhlethdod risgiau yr oedd angen mynd i'r afael â nhw yn ogystal â thwf yn y dyfodol. Roedd cyfanswm o 44 o ddalgylchoedd lle roedd angen i ni ddatblygu atebion manwl i fynd i'r afael â risgiau o'r fath.

O ystyried mai polisi Llywodraeth Cymru yw mynd i'r afael â gorlifoedd storm yn seiliedig ar eu heffaith ("niwed") amgylcheddol, nid yw'r data hydrolog hyn, sy'n mesur llif yn hytrach na niwed yn unig, yn darparu sail ar gyfer cynhyrchu ein cynlluniau buddsoddi ar gyfer gorlifoedd storm. Yn lle hynny, rydym yn cynnal arolwg o'n gorlifoedd storm i asesu eu heffaith unigol ar y cwrs dŵr derbyn, ac yn defnyddio'r data hyn i ddatblygu'r drefn flaenoriaeth ar gyfer mynd i'r afael â gorlifoedd storm sy'n achosi'r niwed amgylcheddol mwyaf yn gyntaf. Rydym yn rhagweld y byddwn wedi cwblhau'r arolwg hwn o effaith gorlifoedd storm mewn pryd i ymgorffori'r data canlyniadol yng Nghylch 2 o'r DWMP a fydd wedyn yn caniatáu i'r cynlluniau buddsoddi ar gyfer Cynlluniau Rheoli Asedau yn y dyfodol ddeillio'n uniongyrchol o'r DWMP, gan y bydd hyn wedyn yn cynnwys capasiti carthffosydd a modelu effaith gorlifoedd storm.

Defnyddiwyd amrywiaeth o dulliau i roi cyfrif am y newid yn yr hinsawdd i lywio'r DWMP a senarios y Strategaeth Gyflawni Hirdymor (LTDS), gyda'r rhain yn cael eu modelu fel sensitifwydd o amgylch senario newid hinsawdd ganolog Llywodraeth Cymru o UKCP09. Gwnaethom gynnal gwaith modelu gan ddefnyddio amrywiaeth o senarios yn y dyfodol rhwng RCP2.6 ac 8.5.

Dadansoddwyd y risgiau o'r ymarfer BRAVA er mwyn i ni ddatblygu rhestr o ddalgylchoedd â'r flaenoriaeth uchaf, ar gyfer datblygu opsiynau o ran atebion. O ganlyniad, mae'r cylch DWMP cyntaf hwn wedi canolbwyntio ar ein 44 o ddalgylchoedd â'r flaenoriaeth uchaf i gynhyrchu atebion i'r cwsmeriaid a wasanaethir waethaf, (y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o lifogydd mynych) a materion eraill o ran capasiti'r rhwydwaith. Yn sgil hyn, cafwyd 219 o gyfresi o atebion yn costio £1.5 biliwn i

¹ Cyfarwydddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol (Atodiad IA) - Bydd systemau casglu yn cael eu dylunio, eu hadeiladu a'u cynnal a chadw yn unol â'r wybodaeth dechnegol orau nad yw'n golygu costau uchel, yn enwedig o ran:

- llif a nodweddion dŵr gwastraff trefol,
- atal gollyngiadau,
- cyfyngu ar lygru dyfroedd derbyn oherwydd gorlifiadau dŵr storm.

ddatrys, yn y ffordd fwyaf amgylcheddol, cymdeithasol a chynaliadwy, yr hyn y mae'r modelau hydrolog yn rhagweld fydd yn digwydd o ran gorlifoedd storm a llifogydd cwsmeriaid yn y dalgylchoedd hynny. Er bod ystyriaeth wedi'i rhoi i gynnwys yr atebion hyn yn y rhaglen fuddsoddi nesaf (AMP8), mae blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â ffosforws o weithfeydd trin dŵr gwastraff, yn enwedig blaenoriaethu gwaith ar wella ansawdd dŵr yn afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) Cymru, ochr yn ochr â blaenoriaethu buddsoddiad ar orlifoedd storm ar sail niwed amgylcheddol yn hytrach nag amllder gollyngiadau, wedi golygu mai dim ond llond llaw o'r atebion wedi'u modelu sydd wedi'u cynnwys yn ein cynllun PR24 arfaethedig, o ystyried bod angen sicrhau bod y cynllun hwn yn cael ei wireddu, ei fod yn fforddiadwy ac y gellir ei ariannu. Bydd gweddill yr atebion wedi'u modelu, ynghyd â'r rhai a ddatblygwyd o fodelu'r 790 o ddalgylchoedd eraill, yn cael eu hailystyried yn ystod cylch nesaf y DWMP a fydd hefyd yn cynnwys data niwed amgylcheddol ar gyfer y boblogaeth gorlifoedd storm fel sail ar gyfer blaenoriaethu buddsoddi mewn gorlifoedd storm.

Buddsoddiad dangosol sydd ei angen ar gyfer Cylch 1

Yn seiliedig yn gyfan gwbl ar y fethodoleg y bu'n rhaid i ni ei mabwysiadu ar gyfer y cylch DWMP cyntaf hwn, a chan gydnabod yr allosod a'r rhagdybiaeth sydd wedi bod yn angenrheidiol o'r gwaith manwl yn y 44 o ddalgylchoedd blaenoriaeth, mae ein cynllun yn nodi y bydd angen buddsoddiad o tua £13 biliwn er mwyn galluogi'r system ddraenio i ymdopi â'r llifogydd rhagamcanol o fewn y senario newid hinsawdd ganolog a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru, heb achosi llifogydd cwsmeriaid a gorlifoedd stormydd yn gweithredu mewn amgylchiadau eithriadol yn unig. Mae hyn yn gostwng i £11.6 biliwn gyda gorlifoedd yn gweithredu tua 10 gwaith y flwyddyn. Mae £5.5 biliwn o'r symiau hynny yn gysylltiedig â dileu'r risg o lifogydd o garthffosydd i gartrefi a busnesau. Ar y lefel buddsoddi a geir ar hyn o bryd yn AMP7, ni fyddai hyn yn cael ei gyflawni tan ar ôl 2100. Er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn yn gynt, erbyn 2075 er enghraifft, mae angen i ni gynyddu ein buddsoddiad ar wella perfformiad amgylcheddol dros y 25 mlynedd nesaf o tua £1 biliwn fesul AMP i tua £2 biliwn fesul AMP a chynnal y lefel hon o fuddsoddiad wedi hynny. Yn AMP8 rydym yn cynnig buddsoddi £1.16 biliwn ar welliant o'r fath.

O ystyried effaith buddsoddiad o'r fath ar filiau ac effaith gymdeithasol y beirianeg sy'n gysylltiedig â chynigion o'r fath, rhwng nawr a chwblhau ail gylch y DWMP, bydd angen i ni barhau i gynnal ymgynghoriadau pwysig â chwsmeriaid, cyrff y llywodraeth a rhanddeiliaid eraill. Bydd yr ymgysylltu hwn wedyn yn penderfynu pa ganlyniadau a safonau peirianeg y dylid eu defnyddio, gan y byddant yn hollbwysig wrth bennu cyfeiriad, cyflymder a chostau cyflawni wrth symud ymlaen, yn ogystal â chyflymder y cynnydd er mwyn sicrhau bod ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn fforddiadwy ac y gellir eu gwireddu a'u hariannu. Byddwn yn parhau i geisio defnyddio atebion ar sail natur a "seilwaith gwyrdd" i reoli llifogydd yn ein rhwydwaith a hefyd i leihau'r effaith ar yr amgylchedd os na all y rhwydwaith gynnwys yr holl lif. Mater i Lywodraeth Cymru fydd canlyniadau a safonau o'r fath yn y pen draw, a bydd angen cefnogaeth rhanddeiliaid lluosog i'w cyflawni, yn enwedig Awdurdodau Lleol.

Gyda'r fath drawsnewid yn ofynnol i leihau llifogydd ond hefyd i weithredu gorlifoedd storm yn un o rannau gwlypaf y DU, mae'n rhaid datblygu hyn ar draws sawl cylch buddsoddi pum mlynedd. Yn wir, gyda chynifer o garthffosydd yng Nghymru yn gyfuniad o ddŵr budr a dŵr wyneb, bydd angen gwneud gwaith ym mhob cymuned, trefol a gwledig, bach a mawr. Byddwn yn blaenoriaethu hyn ar sail mynd i'r afael â'r manau lle mae ein gweithrediadau'n cael yr effaith fwyaf ar yr amgylchedd, yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru.

Llywio Buddsoddiad yn y Dyfodol

O ystyried y buddsoddiad gofynnol yn y dyfodol a nodir gan y cylch cyntaf hwn, byddwn yn ceisio cychwyn trafodaethau â'r Llywodraeth, Rheoleiddwyr a rhanddeiliaid er mwyn sicrhau ein bod, erbyn

i gylch 2 gael ei gwblhau yn 2028, wedi datblygu rhaglen waith sy'n fforddiadwy, ac y gellir ei wireddu a'i ariannu, i ffurfio rhaglen fuddsoddi integredig hirdymor ar gyfer carthffosiaeth a draenio ar gyfer ein hardal weithredol gyfan. Yn ein cyflwyniad PR24, mae'r Strategaeth Gyflawni Hirdymor (LTDS) yn amcangyfrif faint o fuddsoddiad y bydd ei angen yn y dyfodol, yn enwedig o ran gorlifoedd storm a gwelliannau i'r rhwydwaith i gyfyngu ar lifau, y gellir eu cynnwys o bosibl mewn rhaglen o'r fath er mwyn bodloni'r meini prawf hynny. Bydd cwblhau'r asesiadau SOAF, cwrpas modelu gwell yn ein DWMP, ac adborth o'r ystod o atebion "llwyd" a "gwyrddlas" rydym yn eu darparu yn gynnar yn AMP8, ynghyd â mabwysiadu dulliau arloesol a rhyngweithio â rhanddeiliaid eraill, yn enwedig awdurdodau lleol, er mwyn lleihau'r llif sy'n mynd i mewn i'r system ddraenio, yn ein galluogi i fireinio'r amcangyfrifon cost yn yr LTDS presennol ymhellach ar gyfer cylchoedd buddsoddi yn y dyfodol.

Fel rhan o'n gweithgarwch ymgysylltu â chwsmeriaid yn ystod y cyfnod ymgynghori, gwnaethom archwilio'r effaith bosibl ar fforddiadwyedd a biliau cwsmeriaid. Rhoddwyd amrywiaeth o senarios i gwsmeriaid a rhoddwyd adborth ar y rhain. Yn gyffredinol, roedd cwsmeriaid yn argymhell cynnydd graddol mewn biliau er mwyn osgoi unrhyw gynnydd sydyn, gan gefnogi ein rhaglen hirdymor. Ers hynny, rydym wedi adlewyrchu'r adborth hwn ym mhroffil y buddsoddiad dangosol yn ein Cynllun ochr yn ochr ag allbynnau ein gwaith ar LTDS y Cwmni. Mae adroddiad drafft Llywodraeth Cymru gan Stantec hefyd wedi darparu dilysiad defnyddiol o'n hamcangyfrifon cost.

Bodloni disgwyliadau ein Rheoleiddiwr

Cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru yw defnyddio'r DWMP fel catalydd i ddechrau gweithio ar y cyd ag Awdurdodau Lleol (ALLau) i chwilio am fannau lle mae gorgyffwrdd rhwng yr angen i wella'r rhwydwaith carthffosydd ar y naill law ac i reoli dŵr wyneb yn well ar y llaw arall, o ystyried rhwymedigaethau ALLau fel Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol a'r gwaith y maent yn ei wneud i reoli eu rhwydwaith o ddraeniau a chwlfertau priffyrdd. Mae'r gorgyffwrdd hwn yn cynnig cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth i wella cadernid cymunedau lleol a'r amgylchedd.

Yn unol â dyheadau Llywodraeth Cymru, aethom ati i ddatblygu methodoleg a fframwaith cynllunio hirdymor y gellid eu defnyddio i bennu'r hyn roedd angen i ni, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill ei ddarparu i gefnogi'r seilwaith dŵr gwastraff a draenio sydd ei angen dros gyfnod o 25 mlynedd. Er ein bod yn cydnabod cyfarwyddyd Ofwat i ddatblygu Cynllun a fyddai'n llywio ein rhaglen PR24 yn uniongyrchol, nid yw hyn wedi bod yn bosibl o ystyried, fel y nodwyd yn gynharach, fod y DWMP yn seiliedig ar foddelu hydrologig sy'n nodi'r capasiti trin gofynnol, ond yng Nghymru mae'r rhaglen buddsoddi mewn gorlifoedd storm yn cael ei blaenoriaethu ar sail niwed ecolegol a achosir gan orlifoedd storm i gysiau dŵr derbyn, yn hytrach na llif. Byddwn yn ceisio mynd i'r afael â hyn wrth ddatblygu ein DWMP nesaf erbyn 2028. Erbyn hynny, rydym yn gobeithio y byddwn yn gallu ymgorffori canlyniadau'r asesiad o niwed a wneir gan orlifoedd storm ym modelau dalgylchoedd DWMP. I gwmmiau yn Lloegr, mae cynllun i gyfyngu ar orlifoedd storm sydd â gollyngiadau uchel yn golygu deall, ac wedyn mynd i'r afael â'r llifau sy'n deillio o foddelu hydrologig DWMP, gan ddarparu cyswllt uniongyrchol rhwng y DWMP a chynllun gwella AMP8.

Mae Cynllun Caniatâd, sy'n ystyried data ar effaith amgylcheddol ac ansawdd cyrsiau dŵr derbyn ar gyfer gollyngiadau parhaus (gweithfeydd trin dŵr gwastraff) a gollyngiadau ysbeidiol (gorlifoedd storm), wedi'i ychwanegu at y cynlluniau Llifogydd, Draenio a Charthffosydd ac, ar gyfer y cylch nesaf o'r DWMP, bydd hyn yn cynnwys ein hymagwedd at fuddsoddi ar gyfer gorlifoedd storm.

Er gwaethaf yr uchod ac yng ngoleuni'r cyfeiriad strategol a ddarparwyd gan ein Rheoleiddwyr, ac yn amodol ar y cyfyngiadau sydd ynghlwm wrth y ffaith mai cynllun dangosol yw hwn ar hyn o bryd gan fod angen allosod canlyniadau modelu sampl gyfyngedig o ddalgylchoedd a bod diffyg data SOAF

cynhwysfawr ar gael ar draws ein poblogaeth gorlifoedd storm, ein barn ni yw bod ein Cynllun terfynol yn bodloni Egwyddorion Arweiniol Ofwat (cyhoeddwyd 2022) i'r graddau canlynol:

1. Mae ein Cynllun yn *gynhwysfawr, wedi'i seilio ar dystiolaeth ac yn dryloyw*, yn cyd-fynd â dulliau eraill o gynllunio strategaethau a pholisïau ac yn cydymffurfio â Fframwaith DWMP Water UK.
2. Mae'n ymdrechu i *ddarparu systemau gwydn sy'n bodloni pwysau gweithredol ac yn lleihau methiannau mewn systemau*. Mae ein Cynllun yn cynnwys gweithgarwch gweithredol a gweithgarwch i ddiogelu ein hasedau gweithredu rhag digwyddiadau eithafol, yn enwedig llifogydd. Mae'r cynllun yn dangos sut y bydd newid yn yr hinsawdd yn lleihau cadernid dros amser os na fyddwn yn dechrau mynd i'r afael â'r her hon.
3. Mae'n *ystyried effeithiau systemau draenio ar ganlyniadau amgylcheddol uniongyrchol a chanlyniadau ehangach*, ac yn datblygu atebion sy'n rhoi ystyriaeth lawn i gynnydd a gwelliannau net amgylcheddol.
4. *Mae ein Cynllun yn gydweithredol*, mae'n rhoi pwyslais ar fuddion gweithio mewn partneriaeth ac mae'n cyd-fynd â'r gwaith parhaus rydym yn ei wneud ar faterion fel Gorlifoedd Storm, Ffosfforws a Rheoli Llifogydd ac Erydu Arfordirol.
5. Mae'n *dangos arweiniad* i'r sector dŵr yng Nghymru o ran ein dull o reoli ein systemau dŵr gwastraff dros y cyfnod o 25 mlynedd, gan ddangos cydweithio ar draws fframweithiau cynllunio strategol eraill hefyd, megis y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr.
6. Mae'n *gwella canlyniadau i gwsmeriaid ac ymwybyddiaeth* o'n cynlluniau a'n buddsoddiad ar gyfer y dyfodol, a ategir gan yr allbynnau ymgysylltu ac ymchwil cwsmeriaid.

Dull Cylch 2

Bydd Cylch 2, y byddwn yn ei ddatblygu rhwng 2024 a 2028 gyda'r nod o'i gyhoeddi yn 2028, yn canolbwyntio ar ehangu'r cwmpas modelu a datblygu mwy o hyder yn ein cynlluniau. Drwy ategu a gwella ein Hamcanion Cynllunio a sefydlwyd yng Nghylch 1, ein dyhead yw darparu Cynllun ar gyfer rhaglen waith 25 mlynedd, a fydd yn llywio maint ein buddsoddiad yn ein systemau dŵr gwastraff yn y dyfodol. Mae cyllid ar gyfer datblygu ein DWMP ymhellach wedi'i gynnwys yn ein cyflwyniad PR24 a byddwn yn ceisio cyflawni hyn drwy wneud y canlynol:

- Gwella ein Hadnoddau Penderfynu Strategol, megis datblygu ein dull Modelu Dalgylchoedd Integredig. Bydd hyn yn cynnwys rhagweld gallu Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff, Gorsafoedd Pwmpio Carthffosiaeth a chapasiti'r rhwydwaith, ansawdd dŵr afonydd, a rheoli risg asedau trydydd parti. Byddwn hefyd yn defnyddio'r senarios diweddaraf o ran y newid yn yr hinsawdd.
- Datblygu Rhwydweithiau Clyfar ar gyfer Cynllunio Rheoli, a fydd yn darparu gwybodaeth a gofnodwyd ar lif carthion ac ansawdd dŵr carthffosydd. Bydd hyn yn ein helpu i ragweld y risgiau a'r effeithiau yn y dyfodol wrth i ni ymdrechu i uwchraddio ein rhwydweithiau i fodloni disgwyliadau cwsmeriaid a rheoleiddwyr.
- Ymgorffori egwyddorion rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ein proses gynllunio gan ddefnyddio dulliau cynaliadwy o reoli dŵr wyneb, megis hierarchaeth SUDS.
- Cefnogi'r gwaith o ddarparu Atebion ar Sail Natur, megis gwlyptiroedd, i wella gollyngiadau o weithfeydd trin dŵr gwastraff a gorlifoedd storm.

- Gwella (drwy fwy o gydgyssylltu) y gwaith a wnawn ar y cyd â rhanddeiliaid eraill, gyda'r dyhead i greu a datblygu Rhaglen Draenio ac Amgylchedd Genedlaethol, a gefnogir gan Lywodraeth Cymru.
- Parhau i gydweithio â chydweithwyr ar draws y diwydiant i wella dulliau arfer gorau o ddatblygu Cynllunio Busnes a Rheoli.

Drwy barhau i ddatblygu a gwella ein Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff yn ein cylch nesaf, byddwn yn cyflwyno Cynllun sy'n darparu tystiolaeth bendant o'r angen i barhau i fuddsoddi yn ein systemau dŵr gwastraff, gan sicrhau bod ein holl randdeiliaid a chwsmeriaid yn parhau i gael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd, ac yn cefnogi'r safbwyntiau polisi sy'n sail i'n buddsoddiadau. Bydd hyn yn golygu y bydd y broses PR29, i raddau mwy na PR24, yn cael ei llywio gan allbynnau'r DWMP.